31 Mawrth 2017

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Ar 8 Tachwedd 2016, gwnaethom gadarnhau ein bwriad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant ("y cymwysterau newydd"). Bydd y cymwysterau newydd yn barod i'w haddysgu o 1 Medi 2019.

Nod y llythyr hwn yw eich hysbysu am y penderfyniad i gyfyngu ar y cymwysterau newydd fel mai dim ond un ffurf ar bob cymhwyster sydd ar gael. Caiff pob ffurf ei dyfarnu gan un corff dyfarnu. Cyfyngir ar y cymwysterau newydd am gyfnod o bum mlynedd o 1 Medi 2019.

Ar hyn o bryd, mae'r cymwysterau newydd wedi'u cynnwys ar y Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol (PQL) er mwyn nodi eu bod wedi cael eu hystyried ar gyfer cyfyngu. Mae'r PQL yn rhestr o'r cymwysterau, y mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar eu cyfer, y mae'n ystyried cyfyngu arnynt, neu y mae wedi penderfynu cyfyngu arnynt. Yn dilyn cyhoeddi'r penderfyniad i gyfyngu, caiff y cymwysterau newydd eu symud o dan y pennawd "Penderfyniadau i gyfyngu" er mwyn cadarnhau y cânt eu cyfyngu o 1 Medi 2019.

Bydd y cymwysterau newydd yn disodli amrywiaeth o gymwysterau dynodedig sy'n bodoli eisoes ac sy'n gymwys i gael cyllid cyhoeddus ar hyn o bryd. Nid yw'r rhestr o gymwysterau dynodedig presennol yn gynhwysfawr a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd. Gellir ei gweld yma.

Gellir gweld y Penderfyniad i Gyfyngu yma. Mae'n cynnwys rhestr o'r cymwysterau newydd. Ceir rhagor o wybodaeth am ddatblygiad y cymwysterau newydd ar ein gwefan.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

Yn gywir,

Philip Blaker

Prif Weithredwr

Cymwysterau Cymru